



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

**2002 Rhif 1441 (Cy.145)**

**2002 No. 1441 (W.145)**

**YR IAITH GYMRAEG**

**WELSH LANGUAGE**

Gorchymyn Cynlluniau Iaith  
Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2002

The Welsh Language Schemes  
(Public Bodies) Order 2002

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

*(This note is not part of the Order)*

O dan Ran II o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ("y Ddeddf") gall Bwrdd yr Iaith Gymraeg roi hysbysiad ysgrifenedig i unrhyw gorff cyhoeddus lunio Cynllun Iaith Gymraeg. Mae adran 6 o'r Ddeddf yn rhestru amryw o gyrff cyhoeddus at ddibenion Rhan II o'r Ddeddf ac yn darparu bod yr Ysgrifennydd Gwladol (y Cynulliad Cenedlaethol bellach) yn cael pennu cyrff cyhoeddus pellach at y dibenion hynny.

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu cyrff cyhoeddus pellach at ddibenion Rhan II o'r Ddeddf.

Mae tri Gorchymyn blaenorol wedi'u gwneud o dan adran 6 o'r Ddeddf:

Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 1996 (1996/1898);

Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 1999 (1999/1100); a

Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2001 (2001/2550 (Cy.215)).

Under Part II of the Welsh Language Act 1993 ("the Act") the Welsh Language Board may give notice in writing to any public body to produce a Welsh Language Scheme. Section 6 of the Act lists various public bodies for the purposes of Part II of the Act and provides that the Secretary of State (now the National Assembly) may specify further public bodies for those purposes.

This Order specifies further public bodies for the purposes of Part II of the Act.

Three previous Orders have been made under section 6 of the Act:

The Welsh Language Schemes (Public Bodies) Order 1996 (1996/1898);

The Welsh Language Schemes (Public Bodies) Order 1999 (1999/1100); and

The Welsh Language Schemes (Public Bodies) Order 2001 (2001/2550 (W.215)).

**2002 Rhif 1441 (Cy.145)****2002 No. 1441 (W.145)****YR IAITH GYMRAEG****WELSH LANGUAGE****Gorchymyn Cynlluniau Iaith  
Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2002****The Welsh Language Schemes  
(Public Bodies) Order 2002***Wedi'i wneud**28 Mai 2002**Made**28th May 2002**Yn dod i rym**25 Mehefin 2002**Coming into force**25th June 2002*

Gan ei bod yn ymddangos i Gynulliad Cenedlaethol Cymru fod y personau y cyfeirir atynt yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn bersonau sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus eu natur;

Whereas it appears to the National Assembly for Wales that the persons referred to in the Schedule to this Order are persons exercising functions of a public nature;

Yn awr felly, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y swyddogaethau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 6(1) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(a), ac a freiniwyd bellach yn y Cynulliad Cenedlaethol(b), a phob pŵer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Now therefore the National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred upon the Secretary of State by section 6(1) of the Welsh Language Act 1993(a) and now vested in the National Assembly(b), and of all other powers enabling it in that behalf, hereby makes the following Order:

**Enwi a chychwyn****Title and commencement**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2002 a daw i rym ar 25 Mehefin 2002.

1. This Order is called the Welsh Language Schemes (Public Bodies) Order 2002 and comes into force on 25th June 2002.

**Pennu Cyrff Cyhoeddus****Specification of Public Bodies**

2. Pennir y personau y cyfeirir atynt yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn at ddibenion Rhan II o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

2. Persons referred to in the Schedule to this Order are specified for the purposes of Part II of the Welsh Language Act 1993.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(c).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(c).

28 Mai 2002

28th May 2002

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1993 p.38

(a) 1993 p.38

(b) Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(b) The National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(c) 1998 p.38.

(c) 1998 c.38.

**Yr Atodlen**

<b>ENW CYMRAEG NEU GYFIEITHIAD O'R ENW</b>
Yr Asiantaeth Datblygu Sgiliau Sector
Awdurdod Gwasanaethau Ariannol
Awdurdod Strategol y Rheilffyrdd
Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu
Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu Peiriannol
Comisiynydd Plant Cymru
Cyngor Deintyddol Cyffredinol
Cyngor Defnyddwyr Gwasanaethau Post
Cyngor Defnyddwyr Nwy a Thrydan
Cyngor Gofal Cymru
Cyngor Gweithwyr Iechyd Proffesiynol
Cyngor Meddygol Cyffredinol
Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
Cyngor Teithwyr Rheilffyrdd
Gwasanaeth Cyngori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd yng Nghymru a Lloegr
Pwyllgor Teithwyr Rheilffyrdd - Cymru
Tribiwnlysoedd Prisio Cymru a sefydlwyd o dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988

**The Schedule**

<b>ENGLISH NAME</b>
Sector Skills Development Agency
Financial Services Authority
Strategic Rail Authority
Construction Industry Training Board
Engineering Construction Industry Training Board
Children's Commissioner for Wales
General Dental Council
Consumer Council for Postal Services
Gas and Electricity Consumer Council
Care Council for Wales
Health Professions Council
General Medical Council
Nursing and Midwifery Council
Rail Passengers Council
Children and Family Court Advisory and Support Service for England and Wales
Rail Passengers Committee Wales
Wales Valuation Tribunals established under the Local Government Finance Act 1988

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

---

**OFFERYNNAU STATUDOL**

---

**2002 Rhif 1441 (Cy.145)**

**YR IAITH GYMRAEG**

Gorchymyn Cynlluniau Iaith  
Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2002

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

---

**STATUTORY INSTRUMENTS**

---

**2002 No. 1441 (W.145)**

**WELSH LANGUAGE**

The Welsh Language Schemes  
(Public Bodies) Order 2002

©© Hawlfraint y Goron 2002

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2002

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£1.75**

W0074/06/02

ON

ISBN 0-11-090505-9



9 780110 905051